

# Ymrestru awtomatig i bensiwn gweithle

## Prif ffeithiau

ymrestru awtomatig

Adran Gwaith a Phensiynau

# Cynnwys

Cyflwyniad ..... 3
Cyflogwyr ..... 5
Unigolion ..... 9
Cysylltiadau defnyddiol ..... 13
Enghreifftiau o bwy fydd a phwy na fydd yn cael eu hymrestru i bensiwn gweithle ..... 14



# Cyflwyniad

Yn dechrau o Hydref 2012, bydd hyd at 11 miliwn o weithwyr yn cael eu hymrestru'n awtomatig i bensiwn gweithle. Bydd cyflogwyr mawr yn mynd gyntaf, gyda chyflogwyr bychan a chanolradd eu maint yn dilyn dros y chwe blynedd nesaf.

Ffordd i gynilo ar gyfer ymddeoliad yw pensiwn gweithle wedi ei drefnu drwy gyflogwr unigolyn. Gelwir weithiau'n 'bensiwn cwmni', 'pensiwn galwedigaethol' neu bensiwn gwaith'.

Yn y llyfryn hwn byddwch yn dod o hyd i ffeithiau allweddol am ymrestru awtomatig i gynllun pensiwn gweithle ar gyfer unigolion a chyflogwyr.

Bydd hefyd yn helpu rhanddeiliaid a chyflogwyr i gynllunio eu cyfathrebiadau eu hunan i weithwyr am gofrestru awtomatig.

Canllaw sylfaenol yw'r llyfryn hwn yn ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Efallai y bydd rhywfaint o'r wybodaeth yn dod yn llai cwir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith. Am y wybodaeth ddiweddaraf ewch i:

- Gwybodaeth i randdeiliaid
  **www.dwp.gov.uk/workplacepension**
- Gwybodaeth i gyflogwyr
  **www.tpr.gov.uk/actnow**
- Gwybodaeth i unigolion
  **www.gov.uk/workplacepensions**



Pan fyddwch chi'n cyfrannu, bydd eich cyflogwr hefyd yn ogystal â'r llywodraeth drwy ryddhad o dreth.

## Pwy fydd yn cael eu hymrestru i bensiwn gweithle?

Bydd cyflogwyr yn ymrestru gweithwyr yn awtomatig i mewn i gynllun pensiwn gweithle os:

- nid ydynt mewn cynllun pensiwn cymwys yn barod
- ydynt yn 22 oed neu drosodd;
- ydynt o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth;
- ydynt yn ennill mwy na £10,000 y flwyddyn (gallai'r ffigwr hwn newid); ac os ydynt yn gweithio neu weithio fel arfer yn y DU.

Mae ymrestru'n awtomatig ar gyfer pensiwn gweithle yn ffordd ddidrafferth i weithwyr gynilo ar gyfer eu hymddeoliad tra maent yn ennill.

Gall gweithwyr gael rhagor o wybodaeth am bensiynau gweithle ar wefan Directgov.


**www.gov.uk/workplacepensions**

# Pam mae hyn yn digwydd?

Nid yw miliynau o bobl yn cynilo digon i gael yr incwm maent yn debygol o fod eisiau mewn ymddeoliad. Mae disgwyliad bywyd yn y DU yn cynyddu ac ar yr un pryd mae pobl yn cynilo llai mewn pensiynau.

Yn 1901 roedd 10 o bobl yn gweithio i bob pensiynwr yn y DU. Yn 2010 roedd 3 o bobl yn gweithio i bob pensiynwr. Erbyn 2050, disgwylir y bydd hyn yn newid i ddim ond 2 weithiwr.

## Nifer y bobl o oedran gweithio i bob pensiynwr




Mae ein cymdeithas yn heneiddio. Yn 1901 roedd 10 o bobl yn gweithio i bob pensiynwr yn y DU. Erbyn 2050, disgwylir y bydd hyn yn newid i ddim ond 2 weithiwr.



# Cyflogwyr

## Pa help sydd ar gael i gyflogwyr

Am y tro cyntaf bydd y gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr ymrestru'n awtomatig pob gweithiwr cymwys i gynllun pensiwn gweithle a gwneud cyfraniad iddo.

Mae'r Rheolydd Pensiynau yn gyfrifol am sicrhau bod cyflogwyr yn cydymffurfio â'r gyfraith newydd ac maent wedi cynhyrchu canllawiau i helpu cyflogwyr i wneud hyn.

Byddant yn ysgrifennu at bob cyflogwr cyn y dyddiad y mae angen iddynt ddechrau ymrestru gweithwyr i mewn i bensiwn gweithle, ac yn dibynnu ar faint y cyflogwr, ar o leiaf un achlysur arall. Yn ogystal â defnyddio cyfryngau cymdeithasol a hysbysebu yn y wasg masnach i godi ymwybyddiaeth o ddyletswyddau cyflogwyr maent wedi cynhyrchu canllawiau manwl ac offer rhyngweithiol ar eu gwefan i arwain cyflogwyr trwy'r broses gam wrth gam.

**www.thepensionsregulator.gov.uk/employers/detailed-guidance.aspx**

**www.thepensionsregulator.gov.uk/employers/beginners-guide-to-auto-enrolment.aspx**

Un o'r dyletswyddau cyflogwyr yn ymwneud ag ymrestru awtomatig yw eu bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith ar gyflogwyr i ddarparu'r wybodaeth gywir yn ysgrifenedig, i'r unigolyn cywir ar yr adeg gywir, fel bod pobl yn gwybod sut y bydd ymrestru awtomatig yn effeithio arnynt.

Er mwyn helpu cyflogwyr i wneud hyn, mae offer ar y wefan y Rheolydd Pensiynau. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o dempledi llythyrau yn dibynnu ar amgylchiadau gweithwyr a gwybodaeth ar bynciau allweddol mae gweithwyr yn debygol o ofyn amdanynt.

Gellir cael rhagor o wybodaeth yn "Paratoi ar gyfer ymrestru awtomatig: Canllaw cyflym"

**www.thepensionsregulator.gov.uk/employers/7-steps.aspx**



Bydd yn rhaid i gyflogwyr ymrestru pob gweithiwr cymwys i mewn i gynllun pensiwn gweithle cymwys, os nad ydynt eisoes mewn un.

# Pryd mae'n rhaid i gyflogwyr ddechrau ymrestru eu gweithwyr?

Mae'r dyddiad mae gweithwyr yn cael eu hymrestru yn dibynnu ar faint y cwmni maent yn gweithio iddo ac mae'n cael ei gyflwyno dros y chwe blynedd nesaf (gelwir hyn yn ddyddiad llwyfannu).

- Bydd yn rhaid i gyflogwyr mawr (gyda 250 neu fwy o weithwyr), ddechrau ymrestru eu gweithwyr yn awtomatig o fis Hydref 2012 i Chwefror 2014 (efallai y bydd rhai cyflogwyr yn dewis dechrau yn gynharach)
- Bydd yn rhaid i gyflogwyr canolradd (50 – 249 o weithwyr) ddechrau ymrestru eu gweithwyr yn awtomatig o fis Ebrill 2014 i Ebrill 2015
- Bydd yn rhaid i gyflogwyr bychan (49 neu lai o weithwyr) ddechrau ymrestru eu gweithwyr yn awtomatig o fis Mehefin 2015 I Ebrill 2017
- Bydd yn rhaid i gyflogwyr newydd (a sefydlwyd ar ôl Ebrill 2012) ddechrau ymrestru eu gweithwyr yn awtomatig o fis Mai 2017 i Chwefror 2018
- Gall cyflogwyr sy'n dewis i ddefnyddio Budd-dal Diffiniedig neu Gynlluniau Hybrid oedi eu dyddiad llwyfannu tan 30 Medi 2017

Unwaith bydd y Rheolydd Pensiynau wedi hysbysu cyflogwyr o'u dyddiad i ymrestru gweithwyr cymwys i mewn i bensiwn gweithle, gall cyflogwyr ddewis gohirio am hyd at dri mis o'r dyddiad hwnnw. Os ydynt yn dewis gohirio, rhaid i gyflogwyr hysbysu'r gweithwyr hynny yn ysgrifenedig.

Gall cyflogwyr hefyd ddefnyddio'r 'cyfnod gohirio' ar gyfer unrhyw weithwyr newydd gymwys.

Mae rhestr lawn o'r dyddiadau pan fydd rhaid i gyflogwyr ymrestru eu gweithwyr yn awtomatig i'w gweld ar wefan y Rheolydd Pensiynau:

**www.thepensionsregulator.gov.uk/employers/tools/staging-date**



## Camau i ddiogelu

Mae camau i ddiogelu wedi cael eu rhoi mewn lle i ddiogelu unigolion.

**Ni all cyflogwyr:**

- gynnig cymhellion i weithwyr i eithrio o'u pensiwn gweithle
- cynnig cymhellion i weithwyr wrth recriwtio nac awgrymu y gall gweithiwr ond gael eu cyflogi os byddant yn dewis eithrio o'u pensiwn gweithle
- diswyddo gweithiwr yn annheg oherwydd eu bod yn aros yn eu pensiwn gweithle.

**Gellir cael rhagor o wybodaeth yn:**

**www.thepensionsregulator.gov.uk/docs/pensions-reform-safeguarding-individuals-v4.pdf**

## NEST

Mae NEST yn ymddiriedolaeth sy'n seiliedig ar gynllun pensiwn cyfraniad diffiniedig. Fe'i sefydlwyd yn benodol i gefnogi ymrestru awtomatig a sicrhau bod pob cyflogwr yn y DU yn cael mynediad i gynllun pensiwn addas ar gyfer eu dyletswyddau fel cyflogwr. Mae'r cynllun yn un nid-er-elw ac mae'r Ymddiriedolwr gyda'r ddyletswydd gyfreithiol i weithredu er lles gorau ei aelodau. Mae wedi'i gynllunio i fod yn syml ac yn hawdd i gyflogwyr ei ddefnyddio.

Mae NEST yn cynnig ffordd cost isel i bobl roi arian i gynilo ar gyfer eu hymddeoliad. Mae gan aelodau NEST un pot ymddeol gydol oes y gallant barhau i dalu i mewn iddo os ydynt yn rhoi'r gorau i weithio am gyfnod neu ddod yn hunangyflogedig.

**Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am nodweddion allweddol NEST ar eu gwefan yn:**

**www.nestpensions.org.uk/whatisNEST**

## Faint fydd cost cyfraniadau pensiwn i weithwyr a chyflogwyr?

Bydd y mwyafrif o bobl yn cael eu hymrestru'n awtomatig i mewn i gynllun Cyfraniadau Diffiniedig neu gynllun pwrcasu arian. Mae hyn yn golygu bod yr holl gyfraniadau a dalwyd i mewn i'ch pensiwn yn cael eu buddsoddi hyd nes y byddwch yn ymddeol.

Mae'r swm o arian sydd gennych pan fyddwch yn ymddeol yn dibynnu ar faint sydd wedi'i dalu i mewn a pha mor dda mae'r buddsoddiadau wedi perfformio. Yn y rhan fwyaf o gynlluniau pan fyddwch yn ymddeol, gallwch gymryd rhywfaint o'ch pensiwn fel lwmp swm di-dreth a chymryd y gweddill fel incwm rheolaidd.

Mae'r llywodraeth wedi gosod swm gofynnol o arian y mae'n rhaid ei rhoi i mewn i gynllun Cyfraniadau Diffiniedig gan gyflogwyr a gweithwyr, mae hyn yn dechrau'n isel ac yn cynyddu yn raddol dros nifer o flynyddoedd (gelwir hyn weithiau yn gyflwyniad graddol).



Gwiriwch wefan y Rheolydd Pensiynau i gadarnhau eich dyddiad llwyfannu.

Bydd unrhyw weithiwr sy'n ennill dros £10,000 (bydd y ffigwr hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol) yn cael eu hymrestru yn awtomatig i mewn i bensiwn gweithle gan eu cyflogwr. Bydd isafswm canran y cyfraniad yn cael ei wneud ar unrhyw beth mae'r gweithiwr yn ennill dros £5,772 hyd at uchafswm o £41,865 (gall y ddau ffigwr yma newid).

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y ganran lleiafswm a osodir y mae'n rhaid ei gyfrannu yn gyfan gwbl i gynlluniau Cyfraniadau Diffiniedig. Mae hyn yn golygu cyfraniad y gweithiwr, cyfraniad y cyflogwr a rhyddhad treth wedi'u hychwanegu at ei gilydd.

| **Amseru** | **Canran cyfanswm gofynnol y mae'n rhaid ei gyfrannu** |
|---|---|
| 1 Hydref 2012 i 30 Medi 2017 | 2% |
| 1 Hydref 2017 i 30 Medi 2018 | 5% |
| 1 Hydref 2018 ymlaen | 8% |

Mae'r lefel isafswm y cyfraniad ond yn hynny, yn isafswm. Bydd cyflogwyr yn gallu cyfrannu mwy na'r isafswm os dymunant, ac mae llawer eisoes yn gwneud. Gall unigolion hefyd gyfrannu mwy na'r isafswm os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Efallai y bydd rhai pobl yn cael eu hymrestru'n awtomatig ar gyfer Budd-dal Diffiniedig neu Gynllun pensiwn Hybrid. Gall y cynlluniau hyn hefyd gael eu hadnabod fel cynllun 'cyflog terfynol' neu 'cyfartaledd gyrfa'. Os ydych wedi'ch ymrestru yn un o'r cynlluniau hyn mae'r swm a gewch pan fyddwch yn ymddeol yn seiliedig ar nifer o bethau a all gynnwys nifer y blynyddoedd rydych wedi bod yn aelod o'r cynllun pensiwn a'ch enillion. Yn y rhan fwyaf o gynlluniau gallwch chi gymryd rhywfaint o'ch pensiwn fel taliad unswm di-dreth, a'r gweddill fel incwm rheolaidd.

Mae trefniadau amgen yn berthnasol ar gyfer cynlluniau pensiwn Budd-dal Diffiniedig a chynlluniau pensiwn Hybrid oherwydd na all cyflogwyr a gweithwyr gynyddu'r cyfraniadau maent yn eu talu i mewn i'r math hwn o gynllun. Mae hyn yn golygu nad oes yn rhaid i gyflogwyr a ddewisodd y cynlluniau hyn ymrestru eu gweithwyr yn awtomatig tan 30 Medi 2017.

Os na fydd cyflogwyr neu unigolion yn gwybod pa fath o gynllun maent yn ei ddefnyddio ar gyfer ymrestru awtomatig, bydd eu darparwr pensiwn yn gallu dweud wrthynt.



Os ydych yn ennill mwy na £192 yr wythnos neu £834 y mis (2013/14) ac yn cwrdd â'r meini prawf eraill byddwch yn cael eich ymrestru'n awtomatig.



# Unigolion

## Y buddion o bensiwn gweithle

Mae ymrestru'n awtomatig ar gyfer pensiwn gweithle yn ffordd hawdd, di drafferth i weithwyr i gynilo ar gyfer eu hymddeoliad wrth iddynt ennill.

Gall cynilo i mewn i bensiwn gweithle hefyd helpu unigolion i gronni cynilion pensiwn yn gyflymach gan nad ydynt yn cynilo ar eu pen eu hunain. Mae eu cyflogwr a'r llywodraeth (mewn ffurf rhyddhad treth) hefyd yn talu i mewn i'r pensiwn gweithle ac unwaith mae'r ddyletswydd cyflogwr newydd yn cael ei gyflwyno'n llawn, mae cyfraniadau'r unigolyn mewn ffordd yn cael eu dyblu gan gyfraniad y cyflogwr a rhyddhad treth.

Gall gweithwyr eithrio o bensiwn gweithle ar unrhyw adeg, ond os gwnânt, byddant yn colli allan ar y cyfraniad cyflogwr a rhyddhad treth gan y llywodraeth.

## Eithrio o bensiwn gweithle

Os bydd gweithiwr yn eithrio o fewn un mis o'r diwrnod maent yn swyddogol yn dod yn aelod o'r cynllun, bydd fel pe na baent erioed wedi bod yn aelod o'r cynllun pensiwn a bydd unrhyw daliadau a wneir ganddynt at eu pensiwn yn cael ei ad-dalu. Os ydynt yn dewis eithrio ar ôl y cyfnod hwn, yn dibynnu ar y cynllun, ni chaiff y taliadau a wnaed eisoes eu had-dalu a bydd yn aros yn eu cynllun pensiwn hyd nes byddant yn ymddeol.

## Penderfynu ail-ymuno â phensiwn gweithle

Os bydd gweithiwr yn eithrio neu yn rhoi'r gorau i gynilo i'w cynllun pensiwn cyflogwr ond yn ddiweddarach yn penderfynu eu bod am ymuno unwaith eto, gallant wneud hynny. Rhaid i'r cyflogwr eu derbyn yn ôl i mewn, unwaith ym mhob cyfnod o ddeuddeg mis. Os bydd y gweithiwr yn parhau i gyfarfod gofynion penodol, yna bydd eu cyflogwr yn cyfrannu hefyd. Os bydd y gweithiwr yn rhoi'r gorau i dalu am yr eildro, ac yna yn gwneud cais i ymuno unwaith eto o fewn deuddeg mis, nid oes rhaid i'r cyflogwr eu derbyn yr ail dro. Ond gallant wneud hynny os ydynt yn dymuno.



## Cael eich ymrestru yn awtomatig yn ôl i mewn i bensiwn gweithle

Os bydd gweithiwr yn eithrio neu'n rhoi'r gorau i dalu i mewn i bensiwn gweithle mae gan eu cyflogwr ddyletswydd i'w ymrestru'n ôl i'w cynllun pensiwn yn rheolaidd, fel arfer bob tair blynedd. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r gweithwyr hynny sydd wedi rhoi'r gorau i gynilo i bensiwn gweithle i ailystyried eu sefyllfa ariannol ac opsiynau cynilo tuag at bensiwn. Gallant ddewis i aros i mewn y tro hwn neu eithrio eto.

## Gwybodaeth sydd ar gael i unigolion

Am y tro cyntaf, bydd llawer o weithwyr yn gallu cael mynediad i bensiwn gweithle, i'w helpu i gynilo ar gyfer eu blynyddoedd diweddarach. Bydd Pensiwn y Wladwriaeth yn sylfaen, ond gall llawer fod eisiau mwy o arian ar ei ben.

Gall pobl deimlo'n ddryslyd am gynilo tuag at bensiwn. Gall unigolion a gweithwyr gael gwybod mwy am sut y gallai ymrestru awtomatig i gynllun pensiwn gweithle effeithio arnynt drwy fynd i wefan Directgov:

**www.gov.uk/workplacepensions**

Y brif ffynhonnell o wybodaeth ar gyfer unigolion yw ar-lein, mae gan yr Adran Gwaith a Phensiynau hefyd Linell gwybodaeth am Bensiynau Gweithle, ar gyfer y rhai sydd heb fynediad i'r rhyngrwyd neu sydd angen eglurhad pellach.

Mae'r llinellau ffôn ar agor ddydd Llun i ddydd Gwener, 8.00am to 6.00pm.

**Manylion cyswllt:**
Saesneg: 0800 731 0372
Cymraeg: 0800 731 0382
Ffôn testun: 0800 731 0392

Mae'r Money Advice Service wedi datblygu cyfrifiannell ar-lein i helpu gweithwyr ganfod faint y gallent hwy, eu cyflogwr a'r llywodraeth dalu i mewn i bensiwn gweithle.

**www.moneyadviceservice.org.uk/en/tools/workplace-pension-contribution-calculator**

## Amgylchiadau arbennig ac ymrestru awtomatig

Gall ymrestru gweithiwr i bensiwn gweithle amrywio yn dibynnu ar eu hamgylchiadau cyflogaeth ee.

- gweithwyr asiantaeth
- absenoldeb mamolaeth
- absenoldeb salwch
- gweithwyr rhan amser
- gweithwyr dros dro / cytundeb tymor byr
- gofalwyr.

Ceir arweiniad ar wefan y Rheolydd Pensiynau i helpu cyflogwyr i benderfynu pwy ddylai gael eu hymrestru yn awtomatig.



Y cynharaf y byddwch yn dechrau'r mwyaf o arian y gallech ei gael i fwynhau eich ymddeoliad.


## Deall iaith pensiynau a chyfathrebu â phobl

Mae'r iaith a ddefnyddiwn i ddisgrifio ymrestru awtomatig a phensiynau gweithle yn bwysig fel nad yw pobl yn cael eu troi i ffwrdd gan iaith gymhleth.

Rydym wedi cynhyrchu "Canllaw iaith ymrestru awtomatig a phensiynau" gydag ystod o bartneriaid gan gynnwys y diwydiant pensiynau.

**www.dwp.gov.uk/docs/auto-enrol-language-guide.pdf**

Mae gan NEST wyth rheol aur y maent yn eu defnyddio wrth gyfathrebu gydag aelodau.




Canllaw iaith ymrestru awtomatig a phensiynau.

**www.nestpensions.org.uk/schemeweb/NestWeb/includes/public/docs/golden-rules-of-communication,PDF.pdf**

# Codi ymwybyddiaeth o ymrestru awtomatig - Hunaniaeth Weledol

Mae 'stamp' hunaniaeth weledol wedi cael ei ddatblygu i'w ddefnyddio ar gyfathrebiadau sy'n ymwneud ag ymrestru awtomatig. Rydym eisiau i fudiadau ddefnyddio'r stamp ar yr holl gyfathrebiadau ymrestru awtomatig perthnasol i wahaniaethu'r rhain oddi wrth gyfathrebiadau ar fathau eraill o bensiynau neu gynilion.

**Mae'r stamp hunaniaeth weledol wedi ei greu i:**

- crynhoi ymrestru awtomatig i gynllun pensiwn gweithle mewn ffordd syml
- gweithredu fel marc adnabod ddefnyddiol wrth drafod ymrestru awtomatig o fewn y cyd-destun diwygiadau pensiwn gweithle dros y blynyddoedd nesaf
- gynorthwyo dealltwriaeth gyffredinol, gan gydnabod ymrestru awtomatig o fewn diwygiadau pensiwn gweithle ar draws nifer o gynulleidfaoedd y DU.

Y bwriad yw y bydd yr hunaniaeth weledol ymrestru awtomatig yn ennill lefelau uchel o gydnabyddiaeth dros amser ac yn dod yn adnabyddus a ddealladwy fel llwybr byrrach i hysbysu 'ymrestru awtomatig i bensiynau gweithle'.

**Gallwch gael copi cydraniad uchel o hunaniaeth weledol drwy ddilyn y camau isod:**

1. Bydd angen i ddefnyddwyr newydd fynd i: **https://communicationcentre.dwp.gov.uk**
2. Dewiswch y blwch gwymplen sy'n dweud 'I work with DWP... and want the Pension auto enrolment assets', a chwblhau'r ffurflen gofrestru.
3. Nid oes angen noddwr Adran Gwaith a Phensiynau.
4. Unwaith y bydd defnyddwyr newydd yn cael eu e-bost enw defnyddiwr a chyfrinair gallant ddefnyddio'r ardal ymrestru awtomatig i bensiynau yn unig. Gall gymryd hyd at ddau ddiwrnod i hyn gyrraedd, ond rydym yn gobeithio y bydd hyn yn llai yn ymarferol.

**Os nad ydych yn gallu cael mynediad i'r hunaniaeth weledol, cysylltwch â:**

**pensions.planning@dwp.gsi.gov.uk**

ymrestru awtomatig

Y stamp hunaniaeth weledol ymrestru awtomatig.

# Cysylltiadau defnyddiol

**Y Rheolydd Pensiynau** sy'n gyfrifol am sicrhau bod cyflogwyr yn cydymffurfio â'r gyfraith newydd i ymrestru pob gweithiwr cymwys yn awtomatig i mewn i bensiwn gweithle. Mae gan y Rheolydd Pensiynau wybodaeth llwyfannu cyflogwr, canllawiau manwl, offer rhyngweithiol a thempledi llythyrau i helpu cyflogwyr i hysbysu eu gweithwyr am ymrestru awtomatig. Am fwy o wybodaeth ewch i wefan y Rheolydd Pensiynau:

**www.tpr.gov.uk/actnow**

**Mae NEST Corporation** yn ddarparwr pensiwn sydd ar gael i bob cyflogwr sydd am ei defnyddio. Cynlluniwyd NEST i gyd-fynd â'r ddarpariaeth bresennol. Am fwy o wybodaeth ewch i wefan NEST:

**www.nestpensions.org.uk**

**Gall unigolion a gweithwyr** gael rhagor o wybodaeth am sut y gallai ymrestru awtomatig i bensiwn gweithle effeithio arnynt drwy ymweld â gwefan Directgov:

**www.gov.uk/workplacepensions**

**Yr Adran Gwaith a Phensiynau** sy'n gyfrifol am y polisi, deddfwriaeth a chyfathrebu i unigolion mewn perthynas â'r newidiadau yn y gyfraith. Os ydych chi eisiau rhagor o fanylion am y polisi a'r cefndir y tu ôl i'r newidiadau gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan yr Adran Gwaith a Phensiynau:

**www.dwp.gov.uk/workplacepension**

**Mae'r Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau** yn sefydliad annibynnol, dielw sy'n darparu cyngor am ddim am bensiynau. Am ragor o wybodaeth ewch i wefan y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau:

**www.pensionsadvisoryservice.org.uk**

**Mae'r Money Advice Service** yn sefydliad annibynnol sy'n rhoi cyngor ariannol am ddim a diduedd, gan gynnwys sut i reoli dyledion. Am ragor o wybodaeth ewch i wefan y Money Advice Service:

**www.moneyadviceservice.org.uk**


**Gall y Gwasanaeth Olrhain Pensiynau** helpu unigolion i gadw golwg ar eu pensiynau gweithle. Mae llawer o bobl yn newid swydd nifer o weithiau yn ystod eu bywydau gwaith, felly mae'n bwysig i gadw golwg ar eu pensiynau. Gallai'r Gwasanaeth Olrhain Pensiynau helpu i roi iddynt y manylion cyswllt ar gyfer y pensiwn hwnnw. Am ragor o wybodaeth ewch i:

**www.direct.gov.uk/pensiontracing**




Os byddwch yn eithrio, ni fyddwch yn elwa o'r arian ychwanegol gan eich cyflogwr a'r llywodraeth.

## Enghreifftiau o rywun a fydd ac na fydd yn cael ei ymrestru i bensiwn gweithle yn dechrau o fis Hydref 2012 (astudiaethau ffug)



### Bydd Fiona yn cael ei hymrestru yn awtomatig i bensiwn gweithle gan ei chyflogwr

Mae Fiona yn 27 oed ac yn ennill £37,000 y flwyddyn yn gweithio i gwmni ymgynghoriaeth recriwtio. Nid yw hi eisoes yn aelod o bensiwn gweithle ei chyflogwr. Gan fod Fiona yn ennill mwy na £10,000 y flwyddyn ac mae hi dros 22 oed, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'w chyflogwr ei hymrestru'n awtomatig i'r pensiwn a thalu i mewn iddo. Bydd hi hefyd yn cael cyfraniad gan y llywodraeth mewn ffurf ryddhad treth.




### Ni fydd Leon yn cael ei ymrestru yn awtomatig i bensiwn gweithle gan ei gyflogwr

Mae Leon yn 20 oed, yn ennill £17,000 y flwyddyn yn gweithio i gontractwr adeiladu ac nid yw eisoes yn aelod o bensiwn gweithle ei gyflogwr. Gan fod Leon o dan 22 oed, nid oes rhaid i'w gyflogwr ei ymrestru'n awtomatig i'r pensiwn gweithle. Fodd bynnag, gall Leon ofyn i ymuno â'r pensiwn. Os bydd yn gwneud, mae'n rhaid i'r cyflogwr ei ymrestru a thalu i mewn iddo. Bydd ef hefyd yn cael cyfraniad gan y llywodraeth mewn ffurf ryddhad treth.



### Mae Julie eisoes yn aelod o bensiwn gweithle ei chyflogwr

Mae Julie yn 59 oed ac yn ennill £45,000 y flwyddyn yn gweithio i dŷ cyhoeddi. Mae Julie yn aelod o bensiwn ei chyflogwr. Mae ei chyflogwr yn talu i mewn iddo, mae'r llywodraeth yn talu i mewn iddo drwy ryddhad treth ac mae'r pensiwn yn bodloni safonau newydd y llywodraeth. Gan ei bod eisoes yn y pensiwn gweithle, ni fydd Julie yn cael ei hymrestru yn awtomatig.



## Ni fydd Peter yn cael ei ymrestru yn awtomatig i bensiwn gweithle gan ei gyflogwr

Mae Peter yn 42 oed ac yn ennill £4,500 y flwyddyn yn gweithio fel glanhawr ar gyfer elusen fach. Nid yw'n aelod o bensiwn yr elusen. Oherwydd bod Peter yn ennill llai na £10,000 y flwyddyn, nid oes rhaid i'w gyflogwr ei ymrestru'n awtomatig. Fodd bynnag, gall Peter ofyn i'w gyflogwr ei roi mewn pensiwn, ac mae'n rhaid i'w gyflogwr wneud hynny. Gan fod Peter yn ennill llai na £5,772 y flwyddyn, nid oes rhaid i'w gyflogwr dalu i mewn iddo, ond gall ddewis gwneud hynny. Efallai buasai hefyd yn cael cyfraniad gan y llywodraeth mewn ffurf ryddhad treth - byddai angen iddo wirio gyda phwy bynnag sy'n gweinyddu ei gynllun pensiwn.



## Mae Lily yn ymrestru yn ôl i mewn i gynilo pensiwn gweithle

Mae Lily yn 26 oed, yn gweithio llawn amser, yn ennill £28,000 y flwyddyn ac mae newydd symud i mewn i fflat newydd. Mae Lily yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a bydd ei chyflogwr yn ei hymrestru yn awtomatig i mewn i gynllun pensiwn cymwys. Os nad yw cynilo pensiwn yn addas yn ariannol i Lily ar hyn o bryd gall eithrio o gynilo pensiwn gweithle. Bydd yn derbyn ad-daliad am unrhyw gyfraniadau mae wedi'i wneud os bydd yn dewis eithrio yn y mis cyntaf o gael ei hymrestru yn awtomatig gan ei chyflogwr.

Os yw'n eithrio mae'n rhaid i gyflogwr Lily ei hymrestru yn awtomatig eto (os yw'n dal i fodloni'r meini prawf cymhwyster) tua bob tair blynedd o'r dyddiad ymrestru gwreiddiol. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i Lily ailasesu ei sefyllfa ariannol a chyfleoedd i gynilo tuag at bensiwn unwaith mae ei goblygiadau ariannol wedi dod yn fwy sefydlog. Gall ddewis i aros yn y pensiwn gweithle neu eithrio allan eto.

Adran Gwaith
a Phensiynau

Cyhoeddwyd gan
Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Ebrill 2014

**www.dwp.gov.uk**

Ymrestru awtomatig i
bensiwn gweithle - prif ffeithiau
(Cyhoeddiad diwygiedig)

ISBN 978-1-78153-449-6